# Adroddiad Blynyddol i Randdeiliaid

2023



WALES&WEST UTILITIES



# Cynnwys


- Amdanom ni 03
- Cyflwyniad 04
- Digwyddiad lansio 05
- Mynnu diogelwch bob amser 06
- Darparu gwerth am arian 09
- Gwneud popeth y gallwn i ddarparu ynni cynaliadwy 12
- Cynllunio ein dyfodol 16
- Arwain gwasanaeth rhagorol 19
- Cysylltwch â ni 22

# Amdanom ni

Mae mwy na 35,000 o gilometrau o bibellau nwy yn eiddo i ni ac yn cael eu cynnal gennym ac rydym yn cyflenwi nwy i oddeutu 2.5 miliwn o aelwydydd a busnesau, gan wasanaethu poblogaeth o tua 7.5 miliwn o bobl. Dydyn ni ddim yn gwerthu nwy; yn hytrach, rydym yn defnyddio ein rhwydwaith eang o bibellau i gludo nwy ar hyd a lled Cymru a de-orllewin Lloegr.

Mae ein cwsmeriaid yn ymddiried ynom i ymateb i argyfyngau nwy a chadw eu cymunedau'n ddiogel, cysylltu cartrefi a busnesau newydd, ac uwchraddio'r rhwydwaith nwy fel ei fod yn parhau'n ddiogel heddiw a'i fod yn barod i gludo ynni gwyrdd yn y dyfodol.

Rydym yn gweitho gydag ystod o randdeiliaid a chymunedau i ddatblygu datrysiadau ynni cynaliadwy, arloesol a fforddiadwy. Rhan o'n rôl ydy gwneud cyfraniad cadarnhaol at ansawdd bywyd a llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Dyna pam rydym yn gweithio pob awr ac yn buddsoddi yn ein rhwydwaith nwy, er mwyn parhau i gludo nwy yn llwyddiannus i gartrefi a busnesau, gan gynnig y gwasanaeth gorau un i'n cwsmeriaid nawr ac am genedlaethau i ddod.

## Ein blaenoriaethau

### Gwneud popeth y gallwn i ddarparu ynni cynaliadwy

Rydym yn gweithio tuag at gyflawni targedau sero net a darparu ynni dibynadwy, gwyrddach ar gyfer gwres, pŵer a chludiant.

### Arwain gwasanaeth rhagorol

Rydym yn ymdrechu i fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau cwsmeriaid drwy gynnig gwasanaethau teg, cynhwysol ac o ansawdd, gan ofalu am bobl anghenus.

### Mynnu diogelwch bob amser

Fyddwn ni byth yn cyfaddawdu ynglŷn â diogelwch, llesiant a iechyd ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid, ac rydym yn gwella safonau'n barhaus.

### Cynllunio ein dyfodol

Rydym yn datblygu tîm galluog, cydnerth, amrywiol i weithio gyda'n rhanddeiliaid a helpu'n cymunedau a'n cymdeithas i ffynnu.

### Darparu gwerth am arian

Rydym wastad yn gwario a buddsoddi arian yn ddoeth, gan weithio mewn ffyrdd deallus i gynnig gwasanaethau fforddiadwy sy'n rhoi gwerth am arian.

# Cyflwyniad

Gyda'r argyfwng costau byw yn dal yn ei anterth, er bod prisiau ynni wedi sefydlogi rhywfaint, mae llesiant ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid yn un o'n prif flaenoriaethau. I'r perwyl hwnnw, rydym yn sicrhau bod diogelwch wrth wraidd popeth a wnawn – mae derbyn ein 10fed Gwobr Aur RoSPA yn olynol eleni, yn ogystal â Gwobr y Llywydd sy'n dod â bri mawr i ni, yn gydnabyddiaeth o'n hymdrechion.

Eleni hefyd, gwnaethom lansio ein strategaeth cynaliadwyedd annibynnol gyntaf, sy'n amlinellu ein dyheadau hirdymor o ran cynaliadwyedd, ac sy'n cael ei chyflawni fesul cyfnod rheoli pum mlynedd. Roedd gweledigaeth rhanddeiliaid yn allweddol wrth lunio'r strategaeth ddeinamig hon, a fydd yn gwyro'n hyblyg er mwyn adlewyrchu'r heriau y byddwn yn eu hwynebu wrth i ni ymdrechu i chwarae'n rôl mewn datgarboneiddio ynni a chyflawni sero net. Mae'r strategaeth hon yn darparu sylfaen i'n blaenoriaethau ac yn ein galluogi i gymryd y camau gweithredu mwyaf priodol er mwyn cyflawni ein cenhadaeth o gadw pobl yn ddiogel ac yn gynnes. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o enghreifftiau sy'n dangos sut mae hynny'n digwydd yn ymarferol.



**Graham Edwards OBE**
**Prif Weithredwr**






# Digwyddiad lansio

Eleni, gwnaethom lansio ein **[Strategaeth Cynaliadwyedd](#)**. Mae hyn yn ddatblygiad ar ein hymrwymiad i gynaliadwyedd yn ein Cynllun Busnes rheoli prisiau, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Mae'n trosi syniad mawr cynaliadwyedd yn gamau gweithredu penodol rydym yn eu cymryd ar draws pob rhan o'r busnes ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n cymunedau lleol.

Wedi'i datblygu i fod yn gyson â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'r nodau a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r strategaeth uchelgeisiol hon wedi elwa'n fawr o gael mewnbwn gan ein cwsmeriaid ac arbenigwyr sy'n rhanddeiliaid. Mae eu canfyddiadau wedi bod yn allweddol wrth i ni ddatblygu ein strategaeth. Buom yn gweithio gyda'n Grŵp Ymgysylltu â Chwsmeriaid (CEG) a'n Panel Dinasyddion er mwyn gwneud yn siŵr bod y cynllun yn addas at y diben ac yn bodloni anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid.

Fel rhan o'r broses ymgysylltu hon, gwnaethom gynnal digwyddiad lansio, gan wahodd rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn trafodaethau rhyngweithiol wyneb yn wyneb ac ar-lein er mwyn ein galluogi i gasglu rhagor o adborth a llywio ein dull o weithio ymhellach. Aeth y sesiynau hyn dros themâu o'r strategaeth a oedd yn cynnwys:

- cynlluniau i ddod yn rhwydwaith sy'n "barod am hydrogen"
- sut gall y cwmni gefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed
- cyflawni "trawsnewidiad teg" i sero net
- datblygu tîm teg, amrywiol a chynhwysol sydd â sgiliau ar gyfer y dyfodol
- sut gall y cwmni gefnogi bioamrywiaeth a chyflawni enillion amgylcheddol net.

# Mynnu diogelwch bob amser



Elliot Bowen-Churchill gyda'i gynllun buddugol

Mae diogelwch yn gyson yn brif flaenoriaeth i'n rhanddeiliaid allanol a mewnol ac mae'n fater allweddol, sy'n derbyn sylw ein busnes.

Mae derbyn 10fed Gwobr Aur y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) a Gwobr Llywydd RoSPA am ein gwaith yn y maes hwn yn adlewyrchiad o'r pwysigrwydd a osodwn ar ddiogelwch a llesiant.

Buom yn parhau i hyrwyddo diogelwch ymhlith y cyhoedd ac roedd yn destun balchder bod gennym enillydd cenedlaethol yn ein hardal unwaith eto yng nghystadleuaeth carbon monocsid y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni (ENA), sy'n annog rhannu negeseuon diogelwch nwy.

## Ein penawdau cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â diogelwch:

- Cynnal diogelwch ac amddiffyn ein hasedau er mwyn cadw cwsmeriaid a chymunedau'n ddiogel
- Hyrwyddo diogelwch ein gweithlu
- Cadw golwg ar lesiant a iechyd ein cydweithwyr.

# Cefnogi llesiant ein cydweithwyr

Mae llawer o'n rhanddeiliaid yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw ac mae ein peirianwyr a chydweithwyr eraill sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd yn gweld effaith hynny bob dydd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhyddhau podlediadau ynglŷn â'r gefnogaeth rydym yn ei darparu i'n cydweithwyr yn ogystal â sut y gallant adnabod arwyddion bod pobl yn cael trafferth a beth gallant ei wneud i'w cefnogi.

Rydym wedi parhau hefyd i gyhoeddi ein newyddlen llesiant mewnol, sydd yn llawn cynghorion ynglŷn â sut gall ein cydweithwyr ofalu am eu hunain ac eraill.



**ASTUDIAETH ACHOS**

## Gêm ar Ben ar gyfer carbon monocsid

Mae rhanddeiliaid yn disgwyl i ni fynd ati'n rhagweithiol i ledaenu neges diogelwch ac mae ymchwil yn dangos ei bod yn anodd dal sylw pobl yn eu 20au cynnar wrth drafod diogelwch.


Gyda hynny mewn golwg, gwnaethom lansio **Gêm ar Ben**, sy'n datblygu ar sail ein hymgyrch peilot cyfryngau creadigol i dargedu pobl ifanc gyda negeseuon am ymwybyddiaeth carbon monocsid drwy hysbysebion cyfryngau cymdeithasol ar lwyfannau megis Facebook, YouTube, Snapchat, ITVX, All4, Spotify, DAX ac Octave Audio.

Yn Gêm ar Ben, roedd pump o ddylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol yn lledaenu'r neges ynglŷn â pheryglon gwenwyn carbon monocsid drwy TikTok ac Instagram, a buon ni'n cydweithio â rhwydwaith nwy arall, SGN i recriwtio llysgenhadon myfyrwyr o 16 o brifysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a fu wedyn yn cynnal digwyddiadau ac yn rhannu cynnwys a chynhyrchion ymhlith eu cydfyfyrwyr.

Roedd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys gêm arcêd retro wedi'i theilwra a oedd yn seiliedig ar y "lladdwr tawel", a deithiodd i bum campws prifysgol ar draws yr holl rwydweithiau dosbarthu nwy.

Gwnaethom hefyd greu gwefan benodol (UKGDNS.com) i osod gwybodaeth bellach arni ynglŷn â charbon monocsid, gan gynnwys o ble mae'n dod, symptomau gwenwyn carbon monocsid, sut i gadw'n ddiogel a'r rhif i'w alw mewn argyfwng.







Cyflawniadau pwysig yr ymgyrch hon hyd yn hyn:

- **1.19 miliwn** o bobl 16 i 24 oed wedi'u cyrraedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- **5,000+** o fyfyrwyr wedi'u cyrraedd dros daith pum niwrnod y prifysgolion
- **10,732** wedi hoffi cynnwys carbon monocsid y dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

# Darparu gwerth am arian




Mae darparu gwasanaethau cost-effeithiol i'n cwsmeriaid wrth i ni gadw'r nwy yn llifo mewn modd mwy effeithlon a chynaliadwy cyn bwysiced ag erioed. Mae ein Gwaith Arloesi yn hollbwysig ar gyfer datgarboneiddio'r rhwydwaith a chadw costau cyn ised â phosib i ddefnyddwyr ar yr un pryd.

Mae ein Lwfans Bregusrwydd a Charbon Monocsid (VCMA) yn ein galluogi i weithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid i gyrraedd y rhai sydd fwyaf anghenus yn ariannol a'u cefnogi drwy:

- roi cymorth mewn argyfwng drwy dalebau tanwydd
- mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy uchafu incwm
- helpu cwsmeriaid i gael gafael ar gyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni
- cyllido gwaith trwsio a newid cyfarpar nwy ar gyfer y rhai mwyaf anghenus
- darparu larymau carbon monocsid am ddim i grwpiau blaenoriaeth.

### Penawdau ein strategaeth cynaliadwyedd:

- Cadw buddiannau'r cwsmeriaid wrth wraidd pob penderfyniad ynglŷn â buddsoddi
- Trosglwyddo cyn lleied ag y bo modd o gostau i'n cwsmeriaid
- Sicrhau bod ein strwythur cyfalaf yn gydnaws â'n hamcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG).




**ASTUDIAETH ACHOS**

# Llwybr at nwy gwyrddach

Ym mis Mehefin 2023, roeddem yn gyd-gyfrifol am gynnal digwyddiad Porth Hydrogen yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol yng Nghasnewydd, gan ddod â diwydiant, busnes, Llywodraeth a'r sector cyhoeddus ynghyd i weld sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd i chwalu'r rhwystrau rhag datgarboneiddio sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Yn y digwyddiad, gwnaethom lansio'r adroddiad Llwybr tuag at Ddarparu Hydrogen, sy'n deillio o'n gwaith blaenorol ar astudiaeth Llwybrau Datgarboneiddio Rhanbarthol a'n Pecyn Pathfinder. Mae'r adroddiad – ffrwyth cydweithio rhwng dinas ranbarthau, awdurdodau lleol, busnesau ac academyddion drwy bartneriaeth Western Gateway – yn ystyried y cyfleoedd mawr allai ddod i ran y rhanbarth petai hydrogen yn cael ei ddefnyddio fel rhan o system ynni'r Deyrnas Unedig.

Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar y modd y gallai'r ardal ddod yn ganolfan arloesol ar gyfer arloesi mewn hedfan a rheilffyrdd sero net yn ogystal â helpu'r DU i arwain ar ddatgarboneiddio diwydiannau mawr megis cynhyrchu dur yn ne Cymru.

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Cymorth cyfannol i gwsmeriaid sy'n agored i niwed

Drwy weithio gyda Chyngor ar Bopeth, rydym wedi cyd-gynllunio rhaglen ddiogelu ynni sy'n ehangu ar waith presennol yr elusen er mwyn helpu rhagor o aelwydydd incwm-isel ledled Cymru a Lloegr mewn cyfnod o alw eithriadol o uchel.

Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor annibynnol am ddim i filiynau o bobl yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Mae Rhaglen Cyngor ar Ynni'r elusen yn helpu pobl sy'n agored i niwed i gael gafael ar gyngor arbenigol ar ynni, cael gwell bargeinion ynni a gwella incwm eu haelwydydd.

Drwy ein partneriaeth a chyllid VCMA, rydym hefyd yn mynd i'r afael â bwlch gwybodaeth a sgiliau sydd yn y sefydliad er mwyn helpu ei gynghorwyr ynni i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â pheryglon carbon monocsid.

Ar gyfer pob cleient i Gyngor ar Bopeth a dderbyniodd gyngor ar ynni a charbon monocsid eleni, mae'r gefnogaeth wedi arwain at enillion incwm o £835 ar gyfartaledd. Dros holl gyfnod 15 mis y rhaglen hyd yma, mae Cyngor ar Bopeth wedi cefnogi 20,488 o gleientiaid ac wedi sicrhau enillion incwm o £7,056,535.

Mae'r dull cyfannol hwn o ddarparu cefnogaeth yn gwella iechyd meddwl a chorfforol miloedd o aelwydydd ar draws y wlad – adroddodd 69% o'r cleientiaid bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a/neu wedi gwella eu hyder a'u gallu i ymdopi â'u trafferthion.



**FFEIL FFEITHIAU**

- **16,800** o Aelwydydd wedi'u cyrraedd
- **6,904** o Sesiynau Cyngor ar ynni
- **4,933** o Larymau carbon monocsid wedi'u darparu
- **16,800** o Sgyrsiau ymwybyddiaeth carbon monocsid
- **7,173** o gofrestriadau ar Y Gofrestr o Wasanaethau Blaenoriaeth (PSR)
- **9,584** wedi cael Cyngor ar fudd-daliadau
- **48** o atgyfeiriadau Falfiau popty sy'n cloi (LCV)

# Gwneud popeth y gallwn i ddarparu ynni cynaliadwy

Wrth i'r system ynni drawsnewid i fod yn sero net, mae penderfyniadau lleol a rhanbarthol yn chwarae rôl gynyddol allweddol o safbwynt ffurf ein seilwaith. Rydym yn ymchwilio i weld sut gall arloesi gyda systemau ynni gynorthwyo ardaloedd lleol i gyflawni nodau datgarboneiddio ar gyfer eu cymunedau a'u busnesau.

Bydd ein hoffer modelu Pathfinder 2050 yn helpu ardaloedd lleol i ddeall sut mae'r rhwydwaith nwy yn cael ei ddefnyddio, cynllunio ar gyfer trawsnewid i net sero yn y dyfodol, cynhyrchu trydan adnewyddadwy a'r defnydd o fiomethan a hydrogen.

Bydd arloesi yn gallu helpu i roi sylfaen i'r ddealltwriaeth hon drwy ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatrys heriau.

Mae gennym nifer o brosiectau amrywiol yn ein portffolio arloesi sydd â'r nod o gynorthwyo'r trawsnewid i sero net. Yn eu plith mae HyLine Cymru, sy'n edrych ar gyflwyno piblinell hydrogen newydd i gefnogi Clwstwr Diwydiannol De Cymru, prosiect pentref Hydrogen yn Redcar (gyda Northern Gas Networks) a chynllun peilot mewn tref sydd wrthi'n cael ei gynllunio ar hyn o bryd.

Rydym wrthi hefyd yn adeiladu cartref arddangos wedi'i ôl-osod yn 2023 (yn amodol ar waith gyda phartneriaid a'r caniatadau perthnasol). Ymhlith y meysydd eraill sy'n cael sylw yn ein prosiectau arloesi, mae technoleg microgrid, cysylltu â'r rhwydwaith, gwledigrwydd a throi dŵr gwastraff "llwyd" yn hydrogen.

### Penawdau ein strategaeth cynaliadwyedd:

- Arloesi a dewis technolegau gwyrddach
- Paratoi ein hasedau a'n gweithrediadau ar gyfer nwyon carbon-isel
- Gweithio gyda'n cwsmeriaid a'u cefnogi yn ystod y trawsnewidiad i sero net
- Gwella iechyd ein hamgylchedd.






**ASTUDIAETH ACHOS**

## Helo Hydrogen

Rydym yn gwybod bod lleihau allyriadau yn bwysig i'n rhanddeiliaid, felly rydym yn annog y Llywodraeth i ymrwymo i hydrogen ar gyfer gwresogi'r cartref; byddai hynny'n torri 20 miliwn tunnell y flwyddyn o allyriadau carbon deuocsid (CO2), sy'n cyfateb i'r allyriadau o 12 miliwn o geir y flwyddyn.

Rydym yn deall hefyd, er mwyn cyflwyno hydrogen ar gyfer gwresogi'r cartref yn llwyddiannus, bydd angen i ni ddarparu gwybodaeth i'n cwsmeriaid fel bod modd iddyn nhw wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â threfniadau gwresogi eu cartref.

I'r perwyl hwnnw, rydym ni a rhai o'r enwau mwyaf yn niwydiant ynni'r Deyrnas Unedig wedi dod ynghyd i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â hydrogen ac i annog y Llywodraeth i ymrwymo i ddyfodol hydrogen.

Bwriad ymgyrch "Helo Hydrogen" ydy addysgu pobl ynglŷn â photensial hydrogen ar gyfer lleihau allyriadau CO2 a lledaenu'r neges ynglŷn â boeleri newydd sy'n "barod am hydrogen" y gellid eu defnyddio i wresogi cartrefi yn y dyfodol.

## Gweithio ar yr hyn sy'n bosib

Mae gan astudiaethau dichonoldeb rôl bwysig o safbwynt ein dyfodol sero net drwy ddadansoddi pa mor debygol yw hi y bydd prosiect yn un llwyddiannus ac yn aml, bydd amryw o randdeiliaid yn ymwneud â nhw. Ymhlith yr astudiaethau dichonoldeb mwyaf cyffrous sydd ar y gweill ar hyn o bryd, mae:

### Dŵr gwastraff

Rydym wedi partneru gyda'r cwmni hydrogen byd-eang, Hydrostar i asesu ffyrdd o gynhyrchu hydrogen carbon-isel o ddŵr gwastraff.

Bydd ein partneriaeth yn astudio dichonoldeb system electroleiddio carbon-isel sy'n defnyddio dŵr o ansawdd is nag arfer – dŵr glaw wedi'i gasglu yn bennaf – i gynhyrchu hydrogen gwyrdd, a fydd, yn ein tyb ni, yn chwarae rôl hollbwysig mewn ynni wedi'i ddatgarboneiddio, cludiant a darparu gwres.


Caiff hydrogen gwyrdd ei gynhyrchu ar hyn o bryd drwy electrolysis ac fel arfer, mae angen dŵr wedi'i buro a thrydan gwyrdd er mwyn gwneud hyn. Gallai canlyniad llwyddiannus i'r astudiaeth, sydd wedi'i chyllido gan y Gronfa Arloesi Strategol, esgor ar nifer o fanteision, gan gynnwys lleihau costau ac arbed dŵr a charbon.

### HyLine

Mae HyLine Cymru yn ystyried adeiladu piblinell hydrogen a fyddai'n cysylltu ffynhonnell y nwy carbon-isel yn Aberdaugleddau â chanolfan ddiwydiannol Bae Abertawe, ble gellid ei ddefnyddio i bweru diwydiant.

Mae'r biblinell arfaethedig yn elfen arall o'n cyfraniad tuag at helpu'r Deyrnas Unedig i gyflawni sero net erbyn 2050 a bydd yn braenaru'r tir ar gyfer cynhyrchu hydrogen ar raddfa fasnachol ac yn darparu seilwaith i gwsmeriaid diwydiannol a domestig allu trosglwyddo i'r nwy carbon-isel.







Mynychwyr yn nigwyddiad ADBA

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Cyflwyno mwy o fiomethan

Rydym wedi ymrwymo i ddod â mwy o nwy gwyrdd i mewn i'n rhwydwaith er mwyn datgarboneiddio gwres, yn unol â dymuniad ein rhanddeiliaid.

Mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Treulio Anaerobig a Bioadnoddau (ADBA), gwnaethom drefnu gweithdy i randdeiliaid yng Nghaerdydd gyda'r nod o helpu rhagor o weithredwyr bionwy i gysylltu â'r grid.

Bu'r rhai a fynychodd yn trafod datblygiad y farchnad bionwy-i'r-grid a chyfleoedd ar gyfer gweithfeydd bionwy newydd a'r rhai presennol, a bu cydweithwyr o Wales & West Utilities yn siarad am y broses a'r hyn gallwn ei wneud i gefnogi gweithredwyr bionwy bach.

# Cynllunio ein dyfodol



Mae'n hollbwysig ein bod yn paratoi'r genhedlaeth nesaf o gydweithwyr i ddod yn weithwyr ynni proffesiynol arloesol sy'n gallu addasu ac sy'n gallu diwallu gofynion system ynni'r dyfodol a mynd i'r afael â heriau newydd.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae angen i ni barhau i ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol er mwyn cael gwybod beth yw eu disgwyliadau nhw gan "gyflogwyr o'u dewis". Rydym wedi dechrau ymchwilio i hyn eisoes ac rydym hefyd wedi penodi Parter Busnes Adnoddau dynodedig. Yr orchwyl ar gyfer y swydd newydd hon ydy datblygu perthynas gyda rhwydwaith o ysgolion, colegau a sefydliadau addysg bellach er mwyn denu talent i'r diwydiant.

## Penawdau ein strategaeth cynaliadwyedd:

- Datblygu tîm medrus, cydnerth sy'n barod am hydrogen
- Gwella amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ein tîm
- Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi a'n partneriaid diwydiannol ynglŷn â chynaliadwyedd.




Plant yn mynychu sesiwn Llysgennad Diogelwch Nwy

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Rhagor o negeswyr diogelwch nwy

Mae lledaenu neges diogelwch nwy ymhlith ein rhanddeiliaid ifanc yn hynod bwysig gan eu bod yn aml yn mynd â'r hyn maent wedi'i ddysgu yn y dosbarth adref.

Rydym wedi recriwtio a hyfforddi rhagor o gydweithwyr i fod yn Llysgenhadon Nwy sy'n ymweld ag ysgolion i gyflwyno ein sesiynau diogelwch carbon monocsid. Mae'r sesiynau hyn yn pwysleisio'r camau syml y gall plant a'u teuluoedd eu cymryd i gadw'n ddiogel rhag carbon monocsid. Eleni, rydym wedi ehangu'r cynnwys sy'n cael ei gyflwyno gan y llysgenhadon i gwmpasu diogelwch nwy a diogelwch safle hefyd.

Drwy weithio gydag ysgol gynradd yng Nghaerdydd, gwnaethom ailgynllunio'r sesiynau a'r deunyddiau sy'n mynd adref gyda'r plant er mwyn cyflwyno'r neges mewn ffordd hwyliog ac effeithiol, gyda'r plant yn cymryd rhan yn weithredol. Fel rhan o'r sesiynau, mae llysgenhadon yn egluro beth mae nwy yn ei wneud yn y cartref a sut mae'n cyrraedd yno cyn rhoi manylion ynglŷn â'r hyn rydym yn ei wneud er mwyn sicrhau bod pobl yn parhau i dderbyn cyflenwad nwy diogel a dibynadwy.

Mae'r llysgenhadon yn treulio amser hefyd yn egluro pa gamau dylai pobl eu cymryd petaent yn arogli nwy neu'n amau gwenwyn carbon monocsid ac yn annog y rhai ifanc i ddysgu'r rhif argyfyngau nwy cenedlaethol. Yn 2023, byddwn wedi cyflwyno sesiynau i dros 4,800 o blant ar draws ein rhwydwaith.

Ond rydym yn dal ati ac wedi cysylltu â rhagor o ysgolion i drefnu ymweliadau ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf i mewn i 2024, gan fynd ati'n rhagweithiol i dargedu'r llefydd sydd dan fwyaf o risg, megis:

- ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol
- ardaloedd lle ceir llawer o ddigwyddiadau gyda charbon monocsid
- ardaloedd lle rydym yn cynnal gwaith sydd wedi'i gynllunio i ailosod pibellau nwy.

## Dod yn gyflogwr a ddewisir

Mewn amgylchedd gweithredol sy'n newid yn barhaus, mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori diwylliant o ymgysylltu â'n gweithwyr cyflogedig presennol a rhai'r dyfodol, er mwyn sicrhau y gallwn ddenu a chadw'r talent y bydd ei angen arnom i lwyddo.

Eleni, drwy weithio ochr yn ochr â naw cyflogwr mawr arall yn ein maes, buom yn darparu gwybodaeth gyrfaoedd allweddol i ddisgyblion ysgol lleol wrth iddyn nhw wneud eu dewisiadau ar gyfer TGAU. Gwnaethom drefnu digwyddiad gyrfaoedd ar gyfer dros 100 o ddisgyblion blwyddyn 9 o ysgolion yng Nghasnewydd a oedd yn cynnwys gweithdai swyddi a chefnogaeth a chyngor wedi'u teilwra ynglŷn â'r dewisiadau sydd ar gael.

Rydym yn gweithio hefyd gyda sefydliad Dysgu STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) i gael gweld sut gallant ein helpu i ddatblygu cysylltiadau rhwng pobl sy'n gweithio i wella addysg STEM ac i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli i'n cydweithwyr.

Mae ymgysylltu â'n gweithlu presennol hefyd yn bwysig ar gyfer ein dyfodol, ac yn gynharach eleni, gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Thegwch. Y nod yw creu amgylchedd gweithio lle mae pob cydweithiwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi er mwyn iddynt allu cyfrannu i'w llawn botensial.



# Arwain gwasanaeth rhagorol

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ac mae'r ffaith ein bod ymhlith y sefydliadau cyntaf i dderbyn Nod Barcud Gwasanaeth Cynhwysol y BSI (Y Sefydliad Safonau Prydeinig) yn cadarnhau ein hymrwymiad i fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau cwsmeriaid. Dyfarnwyd rhagoriaeth i ni hefyd ar gyfer Nod Gwasanaeth ICS (Y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid) eleni ac mae ein sgoriau gwasanaethau cwsmeriaid wedi parhau'n uchel.

Eleni hefyd, buom yn gweithio mewn partneriaeth â SignLive i ddarparu gwasanaeth dehongli ar-lein 24-awr ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) pan fyddant yn ein ffonio. Gall cwsmeriaid nawr lawrlwytho ap Sign Live a'i ddefnyddio i gael sgwrs fideo gyda dehonglydd BSL a fydd wedyn yn cyfieithu'r drafodaeth a'i chyfleu i'n peirianwyr a'n timau gwasanaeth cwsmeriaid.



## Penawdau ein strategaeth cynaliadwyedd:

- Darparu gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol
- Cefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed
- Cefnogi ein cymunedau wrth drawsnewid i ynni carbon isel.

# Sylw i wasanaethau cwsmeriaid

Mae lles ein cwsmeriaid yn wirioneddol bwysig i'n cydweithwyr ac maent yn parhau i fynd y tu hwnt i'r gofyn er mwyn helpu rhai sydd mewn angen a rhoi gwên ar wynebau'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Mae ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid yn aml yn derbyn adborth cadarnhaol am ein gweithwyr. Eleni, roedd dwy stori'n sefyll allan:

## Golchi'n lân

Yn gynharach eleni, roedd rhaid i ni ddiffodd nwy menyw oedrannus dros nos wrth i ni gynnal gwaith adnewyddu prif bibell yn ystod y tywydd poeth eithriadol.

Roedd ein harweinydd tîm, Jake wedi bod yn rhoi diweddariadau i'r cwsmer ynglŷn â chynnydd y gwaith a chyn gadael y noson honno, sylwodd ar y cwsmer yn berwi'r tegell er mwyn golchi'r llestri. O weld ei bod yn simsanu a bod golwg flinedig arni, cynigiodd Jake olchi'r llestri drosti.

Drannoeth, siaradodd aelod o'n tîm rhwymedigaethau cymdeithasol â merch y fenyw, ac roedd hi'n hynod falch o'r gwasanaeth a ddarparodd Jake, gan ddweud ei fod wedi mynd "y tu hwnt i'r gofyn" er mwyn gofalu amdani tra roedd hi heb nwy.

## Gwasanaeth yn tawelu'r meddwl

Pan oedd ein gwaith yn adnewyddu prif bibell yn debygol o effeithio ar ddyn â chlefyd Alzheimer oedd yn byw yn un o'r tai gerllaw, cysylltodd ei fab â'n peiriannydd, Lee a oedd yn goruchwylio'r gwaith.

Eglurodd Lee pryd byddai angen mynediad i'r eiddo ac, oherwydd bod y dyn yn drysu'n rhwydd ac yn ansicr ynglŷn â gadael i bobl ddieithr ddod i mewn i'w eiddo, cytunodd y byddai'n galw'r mab ymlaen llaw. Cadarnhaodd Lee hefyd y byddai'n gwneud yn siŵr bod y boeler yn gweithio fel arfer unwaith y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau a'r nwy wedi'i ailgysylltu.

Yn yr e-bost a dderbyniwyd gennym ar ôl y gwaith, dywedodd y cwsmer: "Rwy'n hynod ddiolchgar i chi am dawelu fy meddwl a chyfnewid gwybodaeth cyn ac yn ystod diwrnod y gwaith. Wnewch chi gyfleu fy niolch eto i'r peiriannydd am y cymorth a'r gefnogaeth a roddwyd. Rydym yn mynd trwy gyfnod anodd iawn yn ceisio sicrhau bod fy nhad yn parhau i fyw mor annibynnol ag y bo modd ac roedd y gwasanaeth a gawsom o'r radd flaenaf. Diolch yn fawr."






ASTUDIAETH ACHOS

## Hwyluso’r newid i hydrogen i gwsmeriaid sy’n agored i niwed

Ein hagwedd o roi’r cwsmer gyntaf yn ystod y trawsnewidiad ynni ydy sail ein hadroddiad Symud Cwsmeriaid sy’n Agored i Niwed drosodd at Hydrogen.

Mae’r adroddiad, a luniwyd gan arbenigwyr annibynnol yn y Catapwlt Systemau Ynni, yn seiliedig ar ymgysylltu ag amryw o arbenigwyr yn y diwydiant a chwsmeriaid sydd mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed. Mae’n ystyried ymarferoldeb symud cwsmeriaid ynni yn y Deyrnas Unedig drosodd o nwy naturiol i hydrogen – gan roi sylw arbennig i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed.

Yn wahanol i ddatrysiadau eraill posib i helpu’r wlad i gyrraedd allyriadau carbon sero net, ni ddylai symud cartrefi draw at hydrogen olygu bod angen newidiadau sylweddol i gartrefi pobl. Fodd bynnag, mae yna heriau i’w goresgyn o hyd. Mae ein hadroddiad yn nodi’r rhain ac yn amlinellu’r camau allweddol y gellid eu cymryd er mwyn cael cyn lleied â phosib o effaith ar gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed.

Bydd canfyddiadau o’r adroddiad yn cynorthwyo’r cynllunio ar gyfer Treialon Pentrefi Hydrogen, gan gynnwys eu strategaethau ymgysylltu â chwsmeriaid. Byddant yn cael eu rhannu hefyd â rhwydweithiau nwy eraill y Deyrnas Unedig a sefydliadau sydd â diddordeb mewn symud cartrefi drosodd at wresogi wedi’i ddatgarboneiddio er mwyn helpu i lywio eu strategaethau ymgysylltu â chwsmeriaid.

## Cysylltwch â ni

**I gael rhagor o wybodaeth neu cysylltwch â ni ar:**
**engagement@wwutilities.co.uk**




Mynnwch y wybodaeth ddiweddaraf ar-lein drwy ddilyn ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol

@wwutilities | wales-&-west-utilities | wwutilities | @wwutilities

WALES&WEST UTILITIES